# Gwasanaeth cyngor ar fudd-daliadau wrth helpu ag ymchwil

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## A hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am sut gallai talu am amser a threuliau effeithio ar fudd-daliadau'r wladwriaeth?

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n tanysgrifio i wasanaeth y DU sy'n golygu'ch bod chi'n gallu manteisio ar gyngor cyfrinachol y mae Cyngor ar Bopeth Bedford yn ei redeg.

Mae hwn yn wasanaeth cyfrinachol am ddim i chi gan fod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n talu amdano.

## Pwy syâ'n cael defnyddioâ'r gwasanaeth cyngor ar fudd-daliadau?

Aelodau oâ'r cyhoedd sydd eisiau cyngor proffesiynol ac ymchwilwyr sydd eisiau cyngor cyffredinol.

## Sylwch

Nid ydy'r gwasanaeth yn gallu rhoi cyngor ar ymholiadau ynglŷn â threth incwm neu Yswiriant Gwladol neu ymholiadau ynglŷn â budd-daliadau mewn perthynas â thâl am gymryd rhan mewn ymchwil (er enghraifft, am gymryd rhan fel testun treial clinigol neu astudiaeth ymchwil).

Am unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â'r tîm ar **02920 230 457** neu **cynnwys-ymchwil@wales.nhs.uk**



## Cyngor cyfrinachol annibynnol

Os oes angen cyngor cyfrinachol, annibynnol arnoch chi ar fudd-daliadau a helpu ag ymchwil, gallwch chi ddefnyddio ein tanysgrifiad i'r 'Llinell Gymorth Cynnwys'.

Mae hyn yn cynnwys cyngor ar amodau budd-dal o ran y cyfle cynnwys sydd ar gynnig; unrhyw daliadau arfaethedig ac unrhyw ad-daliadau treuliau arfaethedig, gan gynnwys cost cynorthwywyr personol a/neu hwyluswyr.

**Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn gysylltu â 07535 690 987 neu 01234 346 543 neu e-bostio'r lisa@bedfordcab.org.uk gan ddyfynnu PIEW.**